# Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru
# Mehefin 2024

Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol, ar gyfer defnyddwyr ystadegau yng Nghymru, ar ein datblygiadau, ein hymgyngoriadau a'n cynlluniau diweddaraf.

Gellir gweld rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar yn ein calendr o'r hyn sydd i ddod.

## Cynnwys


Llesiant Cymru ... 3

Yr economi a'r farchnad lafur ... 3

- Yr Economi ... 3
- Tablau Mewnbwn-Allbwn ... 3
- Y Farchnad lafur ... 3

Addysg ... 4

- Ysgolion ... 4
- Addysg Ôl-16 ... 5
- Addysg uwch a chyllid myfyrwyr ... 5

Tai ... 5

- Digartrefedd ... 5
- Cyfrif cenedlaethol blynyddol o gysgu allan ... 5
- Cyflwr Tai a Thlodi Tanwydd ... 7

Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ... 7

- Ystadegau ysbytai ... 7
- Gofal sylfaenol a chymdeithasol ... 7
- Iechyd y boblogaeth ... 7
- Ystadegau eraill ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ... 8

Arolwg Cenedlaethol Cymru ... 8

Cyfiawnder cymdeithasol ... 8

- Tlodi ... 8

Costau byw ..... 8
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) ..... 9
Yr ymateb i'r argyfwng yn Wcráin ..... 9
Diogelwch cymunedol ..... 10
Cydraddoldeb ..... 10
Masnach ..... 11
Arolwg Masnach Cymru ..... 11
Masnach Nwyddau Rhyngwladol Cymru ..... 11
Trafnidiaeth ..... 11
Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru ..... 12
Y Gymraeg ..... 12
Arolwg Defnydd Iaith 2019 i 2020 ..... 12
Cyfrifiad 2021 ..... 13
Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'n cynllun gwaith ar y cyd â SYG ..... 13
Data ar y Gymraeg y tu allan i Gymru ..... 13
Amaethyddiaeth a'r amgylchedd ..... 14
Datgarboneiddio a'r Newid yn yr Hinsawdd ..... 14
Cyllid Llywodraeth Leol ..... 14
Lefelau'r Dreth Gyngor ..... 14
StatsCymru ..... 14
Poblogaeth a demograffeg ..... 15
Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru ..... 15
Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau ..... 15
Pwnc-benodol ..... 15
Twitter/X ..... 15
Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru ..... 15
Ymholiadau gweinyddol ..... 15

## Llesiant Cymru

Rydym yn paratoi i ddiweddaru adroddiad Llesiant Cymru ar gyfer y flwyddyn ac yn anelu at ei gyhoeddi ym mis Medi 2024. Bob blwyddyn, rydym yn anelu at wella'r adroddiad. Eleni, rydym yn canolbwyntio ar wella'r defnydd o'r adroddiad ac effaith yr adroddiad ac rydym yn anelu at wella'r naratif ynghylch y cynnydd a wnaed dros amser mewn perthynas â'r dangosyddion a'r nodau llesiant.

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch prosiectaublaenoriaethuchel.ystadegau@llyw.cymru

## Yr economi a'r farchnad lafur

### Yr Economi

Cyhoeddwyd yr amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer gwariant busnes ymchwil a datblygu yn 2022 ar 28 Chwefror 2024.

Ym mis Ebrill, gwnaethom gyhoeddi'r pennawd cynnyrch domestig gros rhanbarthol a gwerth ychwanegol gros, a oedd yn cynnwys amcangyfrifon blynyddol o'r CDG a'r GYG ar gyfer Cymru yn 2022. Gwnaethom hefyd gyhoeddi ein datganiad dangosyddion allbynnau tymor-byr ar gyfer mis Hydref i fis Rhagfyr 2023.

Ym mis Mai, gwnaethom ddiweddaru canrannau'r busnesau sy'n arloesi weithredol ar wefan StatsCymru gan ddefnyddio data o Arolwg Arloesedd y DU.

Rydym hefyd wedi parhau i ddiweddaru dangosfwrdd economi Cymru mewn rhifau.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch ystadegau.economi@llyw.cymru

### Tablau Mewnbwn-Allbwn

Gwnaethom gyflwyno poster yng nghynhadledd y Ganolfan Ragoriaeth mewn Ystadegau Economaidd ym Manceinion, a gynhaliwyd rhwng 15 ac 17 Mai. Roedd y poster hwn yn dangos rhai o'r cymhellion a oedd yn sail i brosiect Tablau Mewnbwn-Allbwn Cymru, rhai o'r anawsterau a wynebwyd wrth greu'r tablau, yr atebion i'r problemau hynny a'r hyn y gallem o bosibl ei wneud yn y dyfodol.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch tablaumewnbwnallbwn@llyw.cymru.

### Y Farchnad lafur

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi nodi bod yr heriau sy'n gysylltiedig â chynnal cyfraddau ymateb ar gyfer yr Arolwg o'r Llafurlu yn parhau i effeithio ar ansawdd y data, er gwaethaf ymdrechion i ailbwysoli'r amcangyfrifon. Caiff ystadegau'r llafurlu sy'n deillio o'r Arolwg o'r Llafurlu eu labelu fel ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu (Y

Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau) hyd nes y cynhelir adolygiad pellach ac rydym yn parhau i argymell y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data hyn.

Rydym yn parhau i gyhoeddi ein datganiad misol yn cynnig trosolwg o'r farchnad lafur, sy'n dod ag amrywiaeth o wahanol ffynonellau mewn perthynas â'r farchnad lafur ynghyd er mwyn rhoi'r darlun diweddaraf o'r effaith y mae digwyddiadau gwahanol yn ei chael ar y farchnad lafur.

Ym mis Ebrill, gwnaethom gyhoeddi ein data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar ystadegau'r farchnad lafur ar gyfer 2023 sy'n cynnwys data ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU yn ogystal ag ardaloedd lleol. Caiff y diweddariad nesaf ar y datganiad ystadegol hwn ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2023.

Roedd yr allbynnau eraill a gyhoeddwyd ym mis Ebrill yn cynnwys y diweddariad chwarterol ar bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) sy'n cyflwyno'r data ar gyfer 2023 ac yn rhoi ystadegau mwy manwl ac amserol ar bobl ifanc (unigolion rhwng 16 a 24 oed) heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yng Nghymru. Cyhoeddwyd data Cymudo yng Nghymru: 2001 i 2023 hefyd ar StatsCymru sy'n dangos llifoedd cymudo o ardaloedd yng Nghymru i ardaloedd eraill (yng Nghymru a'r tu allan i Gymru).

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch ystadegau.marchnadlafur@llyw.cymru.

## Addysg

### Ysgolion

Gwnaethom barhau i gyhoeddi data bob pythefnos ar bresenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir drwy gydol tymor y gwanwyn. Mae'r datganiad hwn bellach yn cynnwys data ar absenoldeb parhaus gan ddefnyddio'r diffiniad newydd, sef 10% o sesiynau ysgol. O 2 Mai 2024 caiff y datganiad hwn ei gyhoeddi'n fisol ar y dydd Iau cyntaf o bob mis hyd at ddiwedd mis Awst 2024. Byddwn yn dechrau ei gyhoeddi eto yn y flwyddyn ysgol newydd ym mis Medi 2024.

Cyhoeddwyd Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc: Medi 2022 i Awst 2023 ar 27 Mawrth 2024.

Caiff datganiad ystadegol newydd ar gyfer Patrymau cyrhaeddiad mewn darllen a rhifedd ei gyhoeddi ar 13 Mehefin 2024 a bydd yn cynnwys dadansoddiadau ychwanegol i ategu'r cyhoeddiad cyntaf yn y gyfres hon ym mis Tachwedd 2023.

Caiff canlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion ym mis Ionawr 2024 eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2024.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech roi adborth, gallwch gysylltu â ni yn ystadegau.ysgolion@llyw.cymru.

Yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael o ganlyniadau'r Cyfrifiad o'r Gweithlu Ysgolion yw ystadegau mis Tachwedd 2022. Caiff canlyniadau'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion ym mis Tachwedd 2023 eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2024.

### Addysg Ôl-16

Roedd ein cyhoeddiadau diweddar yn cynnwys y diweddariad chwarterol diweddaraf o ystadegau Twf Swyddi Cymru+ ar gyfer chwarter 3 blwyddyn ariannol 2023-24 (mis Hydref i fis Rhagfyr 2023). Rydym hefyd wedi cyhoeddi ystadegau ar raglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd ar gyfer chwarter 1 blwyddyn academaidd 2023/24 (mis Awst i fis Hydref 2023).

Mae'r ystadegau blynyddol diweddaraf ar lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio hefyd wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar, gan gynnwys y mesur cynnydd diweddaraf tuag at y dangosydd llesiant cenedlaethol perthnasol.

Er mwyn rhoi adborth neu gael unrhyw wybodaeth bellach, e-bostiwch ystadegau.addysgol16@llyw.cymru

### Addysg uwch a chyllid myfyrwyr

Maes o law, byddwn yn cyhoeddi ein hystadegau ar gyfer Cyllid sefydliadau addysg uwch.

Ni chafodd ystadegau myfyrwyr a gynhyrchwyd gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ar gyfer 2024 eu cyhoeddi yn ôl yr amserlen arferol ym mis Ionawr na mis Chwefror. Y rheswm dros hyn yw bod yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn wynebu oedi o ran casglu Cofnod Myfyrwyr 2022/23 gan rai darparwyr. Mae'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn disgwyl cyhoeddi'r datganiad data terfynol rywbryd ym mis Mehefin a bydd ein datganiadau yn dilyn yn unol â hynny.

Er mwyn rhoi adborth neu ar gyfer unrhyw wybodaeth bellach, e-bostiwch addysguwchachyllidmyfyrwyr.yst@llyw.cymru.

## Tai

### Digartrefedd

Mae'r ystadegau misol ar ddarpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan yn parhau i gael eu cyhoeddi'n rheolaidd, gydag oedi o ryw ddeufis. Yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr a gwaith gydag awdurdodau lleol i wella ansawdd data, rydym bellach yn eu cyhoeddi fel Ystadegau Swyddogol ac yn cyhoeddi data ar lefel awdurdodau lleol.

### Cyfrif cenedlaethol blynyddol o gysgu allan

Yn ddiweddar, gwnaethom ofyn am adborth gan ddefnyddwyr ar ein cynnig i roi'r gorau i'r cyfrif cenedlaethol o gysgu allan. Diolch i bawb a ymatebodd. Rydym wrthi'n ystyried yr ymatebion a byddwn yn rhoi diweddariad maes o law ar ein gwe-dudalennau cysgu allan.

**Dod o hyd i ystadegau tai ar ein gwefan**

Yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr ein hystadegau ei bod hi'n anodd dod o hyd i ystadegau tai ar ein gwefan mewn modd rhagweithiol, rydym yn adolygu'r ffordd o gael gafael ar y gyfres bresennol o ddata gweinyddol a bwletinau ystadegol sy'n ymwneud â thai ar y wefan, gan anelu at wneud gwelliannau.

Ar gyfer unrhyw sefyllfaoedd posibl y byddwn yn eu nodi, bydd angen i ni weithio'n unol â chyfyngiadau'r wefan bresennol, felly rydym yn awyddus i glywed syniadau am newidiadau bach y gallwn eu gwneud i wella profiad defnyddwyr wrth chwilio am ystadegau. A fyddech cystal ag anfon unrhyw syniadau sydd gennych yn hyn o beth er mwyn helpu i lywio ein hystyriaethau; a rhannu unrhyw enghreifftiau da rydych yn ymwybodol ohonynt.

**Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol**

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddwyd y dull newydd ar gyfer cynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol a oedd yn bodloni argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy i ddarparu fframwaith cyson i'r awdurdodau lleol gynnal yr asesiadau hyn. Disgwyliwyd i awdurdodau lleol ddiweddaru eu hasesiadau gan ddefnyddio'r dull newydd erbyn 31 Mawrth 2024.

Dros yr haf, byddwn yn cynnal adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd ac yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol i drafod y camau i'w cymryd i wella'r broses, gan gynnwys nodi a rhannu arferion da, ac rydym yn ystyried pryd y bydd angen i ni gyhoeddi adnoddau a chanllawiau diwygiedig nesaf.

**Amcangyfrifon o'r angen am dai**

Cyhoeddwyd yr amcangyfrifon diweddaraf o'r angen am dai ym mis Awst 2020, ac roeddent yn defnyddio amcanestyniadau aelwydydd a oedd yn seiliedig ar 2018. Gan nad yw'r gyfres nesaf o amcanestyniadau aelwydydd i Gymru yn debygol o fod ar gael tan ganol 2025, rydym wrthi'n ystyried a oes angen diweddariad interim (gan ddefnyddio amcanestyniadau 2018 o hyd), ac os felly, beth yw'r opsiynau cysylltiedig. Hoffem glywed sut rydych yn defnyddio'r data hyn ac unrhyw sylwadau sydd gennych ar y gwaith hwn erbyn diwedd mis Mehefin 2024.

**Cyhoeddiadau**

- Ers y diweddariad diwethaf, cyhoeddwyd yr allbwn ystadegol Digartrefedd: Ebrill i Fedi 2023 (cyhoeddwyd 16 Ebrill)

Cysylltwch â ni drwy flwch post ystadegau.tai@llyw.cymru os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu geisiadau.

## Cyflwr Tai a Thlodi Tanwydd

Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi diweddariad chwarterol i'n hystadegau Adeiladu tai newydd ar gyfer y cyfnod o fis Hydref i fis Rhagfyr 2023.

Yn y chwarter hwn, rydym wedi cyhoeddi diweddariad blynyddol i Cymorth ar gyfer gwelliannau tai, sy'n cynnwys manylion y cymorth ariannol a roddwyd rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023. Rydym hefyd wedi cyhoeddi diweddariad blynyddol i'n hystadegau Peryglon tai, yn seiliedig ar asesiadau a wnaed o dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS) rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023. Yn y chwarter hwn, gwnaethom hefyd ddarparu diweddariad blynyddol i Trwyddedu tai amlfeddiannaeth ar gyfer 31 Mawrth 2023 (cyflwynwyd y wybodaeth hon gennym yn flaenorol fel rhan o'r datganiad Peryglon tai ond er mwyn gwella hygyrchedd i ddefnyddwyr, rydym wedi penderfynu cyflwyno'r allbynnau hyn ar wahân).

Cysylltwch â ni drwy flwch post ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu geisiadau.

## Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

### Ystadegau ysbytai

Yn y chwarter hwn, gwnaethom ddiweddaru ein diweddariad misol arferol i'n crynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG ac yn ystod y chwarter hwn, gwnaethom weithio gyda chydweithwyr eraill ledled y DU i gydgynhyrchu adroddiad cymaradwyedd ar amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ledled y DU (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol) sy'n canolbwyntio ar feithrin gwell dealltwriaeth o'r ffordd y gellir cymharu'r setiau data hyn ledled y DU ac yn ychwanegu at adroddiad cymaradwyedd a gymharwyd eisoes ar ddata amseroedd ymateb ambiwlansys yn y DU (Swyddogaeth Dadansoddi'r Llywodraeth).

### Gweithlu a gwariant y GIG

Yn y chwarter hwn, cafwyd diweddariad i gyllidebau rhaglen gwariant y GIG a'n cyfres o ystadegau chwarterol ar weithlu'r GIG, gan gynnwys; y Gweithlu practis cyffredinol, Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG, Absenoldeb oherwydd salwch y GIG ac Ystadegau swyddi gwag y GIG.

### Gofal sylfaenol a chymdeithasol

Yn y chwarter hwn, cafwyd diweddariad i wasanaethau deintyddol y GIG a gweithgarwch Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ogystal â chyhoeddi ceisiadau ad hoc pellach ar gyfer Plant sy'n derbyn gofal.

### Iechyd y boblogaeth

Yn y chwarter hwn, gwnaethom gyhoeddi Gwahaniaethau cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd yn iechyd, addysg a statws economaidd (Cyfrifiad 2021) yn edrych ar ddata yn ôl amrywiaeth o ganlyniadau economaidd-gymdeithasol ar gyfer unigolion ac aelwydydd a oedd yn breswylwyr arferol yng Nghymru ar adeg y cyfrifiad.

### Ystadegau eraill ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

Yn y chwarter hwn hefyd cafwyd diweddariadau rheolaidd i amrywiaeth o ystadegau eraill, gan gynnwys: amseroedd aros am apwyntiad cyntaf gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed arbenigol, mesurau gofal llygaid a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu.

Mae nifer o allbynnau eraill ar gael gan sefydliadau partner, gan gynnwys diweddariadau i Fapiau Iechyd Cymru gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Mae ein holl ddatganiadau ystadegol ar gael ar y wefan ystadegau ac ymchwil ac mae data sylfaenol manylach ar gael yn ardal iechyd a gofal cymdeithasol StatsCymru.

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch ystadegau.iechyd@llyw.cymru.

## Arolwg Cenedlaethol Cymru

Ni chyhoeddwyd unrhyw allbynnau newydd ers y diweddariad diwethaf. Gellir edrych ar y data drwy ddefnyddio Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau

Cysylltwch â ni yn arolygon@llyw.cymru os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

## Cyfiawnder cymdeithasol

### Tlodi

Gwnaethom gyhoeddi diweddariadau i grynodebau o ddata blynyddol ar gyfer Cymru ar dlodi incwm cymharol, amddifadedd materol a thlodi parhaus ar 21 Mawrth 2024, a oedd yn cynnwys y data diweddaraf yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar ddiwedd 2023.

### Costau byw

Ar 2 Mai 2024, gwnaethom gyhoeddi'r ail ddatganiad fel rhan o gyfres newydd chwarterol o ystadegau'r Gronfa Cymorth Dewisol, a oedd yn cynnwys dadansoddiadau manylach yn ôl oedran ac awdurdod lleol. Byddwn yn parhau i gyhoeddi diweddariadau i'r dangosfwrdd rhyngweithiol yn cyflwyno amcangyfrifon tlodi tanwydd a data cysylltiedig ar gyfer Cymru. Cyfeirir at y rhain a ffynonellau eraill o ddata ar yr argyfwng costau byw mewn blog Digidol a Data a gyhoeddwyd gennym ym mis Rhagfyr 2022. Byddwn yn parhau i weithio gyda

sefydliadau perthnasol i sicrhau bod data ar lefel Cymru ar fetrigau costau byw allweddol ar gael lle bo hynny'n bosibl.

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Rydym wedi cyhoeddi ein bod yn bwriadu cyhoeddi'r MALIC nesaf ar ddiwedd 2025 neu ar ddechrau 2026 ac rydym wedi dechrau trefnu "grwpiau parth" o arbenigwyr i adolygu'r cynigion ar gyfer dangosyddion. Darllenwch ein blog Digidol a Data am ragor o gefndir ar amseru ar y mynegai nesaf, a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar a'r newid mewn ffiniau ardal fach.

Os hoffech gael eich hysbysu pan gaiff gwybodaeth ddiweddaraf MALIC ei chyhoeddi, e-bostiwch ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru i danysgrifio.

### Yr ymateb i'r argyfwng yn Wcráin

Rydym yn parhau i weithio gyda SYG, y Swyddfa Gartref, yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r llywodraethau datganoledig eraill i gynhyrchu ystadegau sy'n ymwneud â'r argyfwng yn Wcráin.

Ar 23 Mai 2024, cyhoeddodd Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ddata ar gyflogaeth ar gyfer gwladolion Wcráin (CThEF a'r Adran) sy'n byw yn y DU rhwng Mawrth 2022 a Fawrth 2024. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiadau ar gyfer gwladolion Wcráin sy'n byw yng Nghymru, yn ôl rhyw.

Ar 23 Mai 2024, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref yr ystadegau demograffig diweddaraf. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad demograffig o'r unigolion hynny o Wcráin sydd wedi gwneud cais am fisa neu wedi derbyn fisa, neu sydd wedi cyrraedd y DU â noddwyr yng Nghymru.

Cyhoeddodd SYG ganlyniadau pedwaredd gyfres yr arolwg 'UK Humanitarian Response Insight Survey (UKHRIS) ar 3 Mehefin 2024, a aeth ati ym mis Ebrill 2024 i gynnal arolwg o oedolion o Wcráin a oedd wedi cymryd rhan mewn arolygon blaenorol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Mae'r ystadegau wythnosol ar nifer y ceisiadau am fisâu, nifer y fisâu a roddir a nifer y bobl sy'n cyrraedd y DU sydd â noddwyr yng Nghymru (yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau) yn parhau i gael eu diweddaru.

### Diogelwch cymunedol

Ym mis Mawrth 2024, gwnaethom gyhoeddi Perfformiad awdurodau tân ac achub: Ebrill i Fedi 2023, pennawd sy'n seiliedig ar 6 mis o ddata. Mae'n cynnwys gwybodaeth am danau a fynychwyd, anafusion oherwydd tanau a galwadau ffug.

Rydym wrthi'n adolygu ein cyfres o allbynnau ystadegol am danau ac yn gobeithio nodi gofynion defnyddwyr. Os ydych yn defnyddio unrhyw rai o'r allbynnau isod, e-bostiwch ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru.

- Ystadegau achosion tân ac achub | LLYW.CYMRU
- Ystadegau gweithredol y gwasanaeth tân ac achub | LLYW.CYMRU
- Perfformiad awdurdodau tân ac achub | LLYW.CYMRU
- Tanau llosgi bwriadol | LLYW.CYMRU
- Tanau glaswelltir | LLYW.CYMRU

### Trosedd a Chyfiawnder

Rydym yn parhau i ddatblygu ein dangosfyrddau trosedd a chyfiawnder. Os oes gennych unrhyw adborth am y dangosfwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a gyhoeddwyd neu awgrymiadau am ddangosfyrddau i'r dyfodol, e-bostiwch ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu comisiynu gwaith ymchwil i lywio'r gwaith paratoi yng Nghymru ar gyfer y posibilrwydd y caiff pwerau a swyddogaethau sy'n ymwneud â chyfiawnder a phlismona eu datganoli yn y dyfodol. Bwriedir cynnal gweithdy i gyflenwyr ar 5 Mehefin. A fyddech cystal â nodi eich diddordeb os hoffech wneud cais am y contract hwn ac anfon e-bost i'r cyfeiriad canlynol os hoffech gael gwahoddiad i'r digwyddiad: JusticePolicy@llyw.cymru. I gael rhagor o fanylion, gweler yr hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw ar GwerthwchiGymru.

## Cydraddoldeb

Mae data o Gyfrifiad 2021 wedi cael eu dadansoddi ymhellach a'u cyhoeddi:

Cyhoeddwyd bwletin ystadegol ar wahaniaethau cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd yn iechyd, addysg a statws economaidd (Cyfrifiad 2021) ar 6 Mawrth 2024.

Bwriedir cyhoeddi allbynnau pellach sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth ac anghydraddoldeb pobl anabl o safbwynt croestoriadol ar ddiwedd 2024.

Rydym wrthi hefyd yn ailwampio'r Archwiliad Data Chydraddoldebau. Diben yr archwiliad hwn yw casglu gwybodaeth am y data a gesglir ac a gyhoeddir mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig a nodweddion eraill sy'n gysylltiedig â chydraddoldebau.

E-bostiwch YrUnedTystiolaethCydraddoldeb@llyw.cymru os bydd gennych unrhyw adborth.

Yn ddiweddar, gwnaethom rai newidiadau i adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gwefan StatsCymru er mwyn gwella mynediad at y data mwyaf diweddar. Mae'r adrannau ar gyfer pob nodwedd bellach yn cynnwys is-adrannau ar gyfer eu priod ffynonellau (sef yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn bennaf ar hyn o bryd). Gwnaethpwyd hyn er mwyn paratoi ar gyfer ychwanegu data Cyfrifiad 2021 at StatsCymru, rydym yn bwriadu eu hychwanegu ar ffurf Taenlen OpenDocument yn y misoedd sydd i ddod. Mae tablau data o ffynonellau hŷn ar gael ar y dudalen Archif. Rydym yn croesawu unrhyw adborth am y ffordd rydych yn defnyddio adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gwefan StatsWales, neu'r hyn yr hoffech ei gael o ddata Cyfrifiad 2021, yn ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru

## Masnach

### Arolwg Masnach Cymru

Bydd y dadansoddiad o ddata 2022 yn barod i'w gyhoeddi erbyn diwedd yr haf 2024.

Ni chaiff data eu casglu yn 2024 oherwydd pwysau cyllidebol, ond bydd hyn hefyd yn galluogi'r tîm dadansoddi i gynnal dadansoddiad manylach o ddata a gasglwyd yn flaenorol ac ailystyried yr achos busnes dros barhau â'r Arolwg Masnach yn y dyfodol.

### Masnach Nwyddau Rhyngwladol Cymru

Cyhoeddwyd prif ganlyniadau Ystadegau Masnach Ranbarthol CThEF ar gyfer masnach nwyddau rhyngwladol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023 ar 14 Mawrth 2024. Cyhoeddwyd masnach nwyddau rhyngwladol Cymreig: 2023 ar 17 Ebrill 2024, ac roedd yn cynnwys dadansoddiad pellach o ddata 2023. Ni chaiff tablau allforio cysylltiedig StatsCymru eu diweddaru mwyach gan fod data 2023 wedi'u cwblhau.

Ochr yn ochr â'r ystadegau uchod, caiff y dangosfwrdd masnach rhyngweithiol ei ddiweddaru yn unol â data'r chwarter diweddaraf. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddiweddaru'r dangosfwrdd, gan ymgorffori symiau o ddata a chyflwyno gwelliannau hygyrchedd.

Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch: ystadegau.masnach@llyw.cymru

## Trafnidiaeth

Ym mis Ebrill 2024, cyhoeddwyd Trafnidiaeth rheilffyrdd: Ebrill 2022 i Fawrth 2023 a oedd yn cynnwys gwybodaeth am fynediad i orsafoedd rheilffordd, digwyddiadau ar drenau, marwolaethau ar reilffyrdd a throsedd yng Nghymru. Gwnaethom hefyd gyhoeddi Cerbydau gwasanaeth cyhoeddus (bysiau a thacsis): Ebrill 2022 i Fawrth 2023 a oedd yn cynnwys

gwybodaeth am wasanaethau bysiau lleol, tocynnau bws, amlder bysiau a thacsis yng Nghymru.

Ym mis Mai 2024, gwnaethom gyhoeddi Cludiant awyr: 2023 a oedd yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer Maes Awyr Caerdydd gan gynnwys symudiadau awyrennau, teithwyr a chludo nwyddau.

I roi adborth ac i wneud sylwadau, e-bostiwch ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru

### Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Daeth dros 130 o randdeiliaid mewnol ac allanol i sesiynau ymgysylltu Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd gan Trafnidiaeth Cymru ym mis Mawrth 2024. Roedd yr adborth a gafwyd ar y gwaith datblygu a wnaed hyd yn hyn, nodau allweddol yr arolwg a'r data a gesglir yn gadarnhaol.

Lansiwyd yr arolwg peilot cyntaf ar y we ar 3 Mai 2024, a gwahoddwyd 7,500 o aelwydydd ledled Cymru a ddewiswyd ar hap i gymryd rhan. Dylai'r arolwg peilot roi syniad i ni o'r gyfradd ymateb ar-lein bosibl ar gyfer y prif arolwg terfynol, nifer y teithiau a gofnodir fesul person ac addasrwydd nifer o'r paramedrau dylunio sy'n cael eu profi fel rhan o'r arolwg peilot. Caiff yr arolwg peilot ei gynnal tan 2 Mehefin 2024, ac yn dilyn hynny gallwn wneud rhai penderfyniadau allweddol mewn perthynas â chamau nesaf y broses o ddatblygu'r arolwg.

Mae'r holiadur a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg peilot hwn ar gael ar-lein (Trafnidiaeth Cymru).

Mae Trafnidiaeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi rhagor o wybodaeth am y broses o ddatblygu'r Arolwg Teithio Cenedlaethol hyd yn hyn ar ei wefan.

Gellir anfon unrhyw sylwadau, cwestiynau neu adborth at y tîm yn arolwgteithio@trc.cymru.

## Y Gymraeg

### Arolwg Defnydd Iaith 2019 i 2020

Cynhaliwyd Arolwg Defnydd Iaith 2019 i 2020 fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru i gael gwybod pa mor aml, ble, pryd a gyda phwy y mae siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg, ac i wybod mwy am eu sgiliau yn yr iaith.

Ar 24 Ebrill, gwnaethom gyhoeddi ein pumed bwletin ystadegol, a'r un olaf, yn ein cyfres Arolwg Defnydd Iaith 2019-20, sy'n adrodd ar y defnydd o'r Gymraeg gyda darparwyr gwasanaethau. Mae'r datganiad hwn, y cyhoeddwyd tablau data i gyd-fynd ag ef, hefyd yn adrodd ar ymwybyddiaeth o'r logo oren “Cymraeg”.

Yn y gorffennol, rydym wedi cyhoeddi canfyddiadau cychwynnol ar y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru a chrynodebau pwnc ar y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref ac ym myd addysg, defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

### Cyfrifiad 2021

Y llynedd, gwnaethom gyhoeddi dadansoddiad o gyfansoddiad cartrefi yng Nghymru o ran y Gymraeg o Gyfrifiad 2021. Roedd y datganiad hwn yn cynnwys y cysyniad o gyfraddau trosglwyddo iaith (y broses lle mae iaith yn cael ei throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth drwy ryngweithiadau teuluol arferol rhieni neu warcheidwaid a phlant).

Ar 1 Mai, gwnaethom gyhoeddi data ychwanegol ar gyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd, yn ôl rhyw y rhiant neu'r partner o Gyfrifiad 2021.

### Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'n cynllun gwaith ar y cyd â SYG

Cyhoeddwyd y data diweddaraf ar y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar 18 Ebrill. Gwnaethom hefyd ddiweddaru ein tablau StatsCymru er mwyn cynnwys y data diweddaraf.

Yn sgil cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda SYG ar raglen waith a fydd yn ystyried ymhellach rai o'r gwahaniaethau a welwyd gennym rhwng y cyfrifiad a rhai o'n ffynonellau data eraill ar y Gymraeg, megis yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

Cafodd diweddariad ar gynnydd ein cynllun gwaith ar y cyd â SYG ei gynnwys yn ein datganiad diweddaraf ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar 18 Ebrill.

### Data ar y Gymraeg y tu allan i Gymru

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddata cynhwysfawr ar siaradwyr Cymraeg y tu allan i Gymru a allai roi darlun cywir o siaradwyr Cymraeg yn Lloegr neu weddill y DU. Fel rhan o'n rhaglen waith ar y cyd â SYG, byddwn yn dogfennu gofynion defnyddwyr ar gyfer data am y Gymraeg y tu allan i Gymru.

Os ydych yn defnyddio ystadegau ar y Gymraeg a bod gennych unrhyw sylwadau ar ddata ar y Gymraeg ar gyfer y boblogaeth sy'n byw y tu allan i Gymru, neu ar y gofynion o ran y data hynny, cysylltwch.

Os oes gennych unrhyw adborth neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw agwedd ar ein gwaith, e-bostiwch: dataiaithgymraeg@llyw.cymru

## Amaethyddiaeth a'r amgylchedd

### Datgarboneiddio a'r Newid yn yr Hinsawdd

Ar 28 Mawrth 2024, cyhoeddodd yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ) ystadegau ar Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Tiriogaethol Dros Dro y DU ar gyfer 2023. Dim ond i'r DU mae'r ystadegau hyn yn berthnasol; caiff data sy'n ymwneud yn benodol â Chymru ar gyfer 2022 eu cyhoeddi ar 28 Mehefin 2024.

- Yn ôl amcangyfrifon dros dro, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr tiriogaethol y DU wedi gostwng 5.4% yn 2023 o gymharu â 2022, ac maent 52.7% yn is na lefelau 1990.
- Mae'r gostyngiad amcangyfrifedig mewn allyriadau rhwng 2022 a 2023 yn deillio'n bennaf o ostyngiad yn y defnydd o nwy at ddibenion cynhyrchu trydan, gyda gostyngiadau mewn allyriadau tai ac allyriadau diwydiant hefyd yn cyfrannu at allyriadau is.

Ar 15 Mai 2024, cyhoeddodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ystadegau ar ôl troed carbon y DU a Lloegr yn 2021. Mae amcangyfrifon o allyriadau ôl troed carbon yn ystyried ble y caiff nwyddau eu defnyddio yn hytrach na ble y cânt eu cynhyrchu (mae amcangyfrifon o allyriadau tiriogaethol yn ystyried ble y caiff nwyddau eu cynhyrchu).

E-bostiwch ystadegau.amaeth@llyw.cymru i gael rhagor o wybodaeth.

## Cyllid Llywodraeth Leol

### Lefelau'r Dreth Gyngor

Y chwarter hwn, rydym wedi cyhoeddi ein diweddariad blynyddol i'n datganiad ar Lefelau'r Dreth Gyngor a data StatsCymru cysylltiedig.

## StatsCymru

Bydd gwasanaeth OData StatsCymru yn dod i ben ar ei ffurf bresennol ar 31 Awst 2024 a bydd datrysiad dros dro yn cael ei roi ar waith.

Mae OData yn un ffordd o gyrchu a defnyddio data o StatsCymru, mewn ffordd awtomataidd, raglennol (a elwir yn API, Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau). Ni fydd y newid hwn yn effeithio ar weddill gwefan StatsCymru. Byddwch yn parhau i allu dod o hyd i ddata o'r wefan, ei weld a'i lawrlwytho.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y blog Digidol a Data hwn.

## Poblogaeth a demograffeg

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru

## Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru

### Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau

E-bost: desg.ystadegau@llyw.cymru

Ffôn: 03000 255050

### Pwnc-benodol

Cysylltiadau ar gyfer ystadegau

### Twitter/X

YstadegauCymru

### Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru

Newyddion a hysbysiadau

### Ymholiadau gweinyddol

E-bost gweinydduggd@llyw.cymru